# Sut rydym yn cymharu?

Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae sefydlu cronfa o dan reolaeth y rhoddwr gyda'r Sefydliad Cymunedol Cymru'yn ffordd amgen hawdd o sefydlu ymddiriedolaeth elusennol:

| Cronfa o dan Reolaeth y Rhoddwr | vs | Ymddiriedolaeth Elusennol |
|---|---|---|
| Gellir sefydlu cronfa ar unwaith. | | Gall ymddiriedolaeth gymryd wythnosau, misoedd weithiau, i'w sefydlu ac efallai y bydd angen i chi dalu ffioedd cyfreithiol er mwyn cofrestru. |
| Caiff eich statws treth ei gynnwys o dan statws elusen y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. | | Mae'n rhaid i chi sefydlu eich statws treth eich hun drwy gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. |
| Ni sy'n gyfrifol am ddarparu adroddiadau i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau, drwy gyflwyno cyfrifon wedi'u harchwilio. | | Rhaid i chi gadw'r holl gofnodion ariannol a pharatoi cyfrifon a chyflwyno adroddiadau ffurfiol bob blwyddyn. |
| Mae ein hymddiriedolwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol am gronfa'r cleient a diwydrwydd dyladwy ar grantiau. Mae rôl y cleient yn dibynnu ar faint o gyswllt yr hoffai ei gael. | | Rhaid i chi benodi Bwrdd Ymddiriedolwyr er mwyn rheoli pob agwedd ar y broses o roi grantiau a buddsoddiadau. |
| Rydym yn gofalu am bob agwedd ar y gronfa, gan gynnwys hyrwyddo, asesu ceisiadau, dyfarnu grantiau a monitro. | | Rydych yn gyfrifol am eich proses rhoi grantiau a'ch trefniadau gweinyddu, hyrwyddo, diwydrwydd dyladwy a rheoli ansawdd eich hun. |
| Gallwn sicrhau bod cleientiaid a deiliaid cronfa yn parhau'n ddienw. | | Rhaid i chi gadw cofnodion sydd ar gael yn gyhoeddus a darparu adroddiadau i'r Comisiwn Elusennau. |
| Rydym yn defnyddio ein rhwydweithiau helaeth i gysylltu rhoddwyr ag achosion sy'n bwysig iddynt yn yr ardaloedd daearyddol maent am ganolbwyntio arnynt. | | Rhaid i chi ddod o hyd i rwydweithiau a ffynonellau gwybodaeth eich hun. |

Sefydliad Cymunedol Cymru

Am fwy o wybodaeth cyslltwch Katy Hales, Cyfarwyddwr Dyngarol,
trwy e-bostio katy@communityfoundationwales.org.uk neu ffonwich 02920 379580